# Cofnodion Fforwm Rheoli Dŵr Cymru

**Teitl y cyfarfod: Fforwm Rheoli Dŵr Cymru**

**Lleoliad: Yn rhithwir drwy MS Teams**

**Dyddiad y Cyfarfod: 03 Mawrth 2021**

**Aelodau Fforwm Rheoli Dŵr Cymru a oedd yn Bresennol:**

**Yn Bresennol:** Yr Athro Steve Ormerod (CADEIRYDD), Ceri Davies (CNC), Ceri Jones (CNC), Mark Squire (CNC), Rhian Thomas (CNC), Tony Harrington (DCWW), Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru), Bob Gilchrist (CCW), Gail Davies-Walsh (Afonydd Cymru ar ran Cyswllt Amgylchedd Cymru), Dennis Matheson (TFA Cymru), Eifiona Williams (LlC), Liz Franks (HD), Anthony Geddes (Confor) Kristian James (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Bethan Evans (Ofwat), Tom Mills (Yr Awdurdod Glo), Andrew Osbaldiston (Asiantaeth yr Amgylchedd), Richard Blackwell (WRW ar ran United Utilities)

**Ymddiheuriadau:** Siân Williams (CNC), Aled Jones (FUW), Nicola Gandy (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn cynrychioli'r tri Pharc Cenedlaethol), Jean-Francois Dulong (CLlLC), Phil Stone (Canŵ Cymru)

**Aelodau trwy ohebiaeth:** Mark Tilling (Is-adran y Môr a Physgodfeydd LlC), Peter Birch (Glandŵr Cymru), Dai Harries (LlC – Cangen y Tir, Natur a Choedwigaeth),

**Ysgrifenyddiaeth: Ceri Jones**

**Noder:**

## Eitem 1 Agor y cyfarfod

Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, yr Athro Steve Ormerod, ac amlinellodd y trefniadau ar gyfer cynnal y Fforwm yn y fformat rhithwir. Croesawyd yr aelodau newydd, Gail Davies-Walsh (Prif Weithredwr Newydd Afonydd Cymru) yn gynrychiolydd Cyswllt Amgylchedd Cymru a Tom Mills o’r Awdurdod Glo.

## Eitem 2 Adolygu'r cofnodion a'r cofnod gweithredu

Cadarnhawyd cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf. Nid oedd unrhyw gamau gweithredu wedi cael eu trosglwyddo i'r cyfarfod hwn. Bydd fersiwn terfynol yn cael ei roi ar dudalen Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ar wefan CNC.

[https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/water/wales-water-management-forum/?lang=cy](https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/water/wales-water-management-forum/?lang=cy)

Cafwyd sylwadau ar yr eitem ar y System Ddraenio Gynaliadwy o'r cyfarfod blaenorol. Mae hyn yn parhau i fod yn bwnc i'w drafod yn Fforwm Rheoli Dŵr Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud adolygiad a chafwyd awgrym o gael Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer y maes gwaith yma. Efallai y byddai hwn yn cael ei rannu gyda Fforwm Rheoli Tir Cymru yn ogystal â gwneud cysylltiadau gydag atebion seiliedig ar natur, gan gynnwys amddiffyn rhag llifogydd. Cytunodd Fforwm Rheoli Dŵr Cymru mai'r hyn sydd yn allweddol yma yw darparu atebion integredig ar raddfa dalgylch. Dylid ystyried atebion traws ffiniol yn ogystal.

**CAM GWEITHREDU: CJ i ddilyn hyn gyda MS gan sicrhau bod Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) hefyd yn ymwybodol o'r trafodaethau ynghylch Systemau Draenio Cynaliadwy. CJ i wneud y cysylltiad yna hefyd gyda'r trafodaethau ehangach yng nghyswllt perygl o lifogydd.**

Bu peth trafod cyffredinol ar wneud cysylltiadau rhwng y gwahanol Fforymau, gan gynnwys y rhai sydd yn cael eu trefnu gan eraill megis LIC a DCWW. O ran Fforymau CNC, gyda llawer o themâu trawsbynciol, yn arbennig gyda'r cynllun ffermio cynaliadwy, mae lle i gael sesiynau cydgysylltiedig.

**CAM GWEITHREDU: CJ i barhau i sicrhau bod cysylltiadau yn eu lle rhwng Fforymau CNC.**

## Eitem 3 Adolygu Cylch Gorchwyl

Cafwyd cytundeb ar Gylch Gorchwyl Fforwm Rheoli Dŵr Cymru yn Ebrill 2019 felly roedd yn amserol adolygu hwn. Rhai awgrymiadau bychain a gyflwynwyd:

- Aelodaeth graidd – diweddaru 'Rhai Cyrff Anllywodraethol Amgylcheddol' i gynnwys Cyswllt Amgylchedd Cymru
- Gwneud yn fwy eglur fewnbwn aelodau trwy ohebiaeth ac aelodau a wahoddwyd ar gyfer materion arbenigol neu faterion sy'n dod i'r amlwg ac sy'n effeithio ar ddŵr
- Ystyried sut y gallwn gynnwys camau gweithredu a blaenoriaethau ymarferol yn y Fforwm. Beth yw'r cyfleoedd allweddol a'r heriau ar gyfer dŵr?
- Ystyried matrics trawsbynciol gyda Fforymau eraill
- Mabwysiadu diweddariad bord gron byr gan aelodau, gan ddefnyddio Fforwm Rheoli Tir Cymru yn enghraifft fel eitem agenda safonol
- Bydd apwyntiadau dyddiadur yn cael eu trefnu – bydd y rhain yn dangos cyfeiriadau e-bost aelodau. Dylai unrhyw aelod nad yw'n dymuno rhannu ei gyfeiriad e-bost roi gwybod i Ceri

Rhywfaint o drafodaeth ynghylch grwpiau Gorchwyl a Gorffen posibl ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy, fel y codwyd dan Eitem 2.

**CAM GWEITHREDU: CJ i ddiwygio'r Cylch Gorchwyl erbyn cyfarfod Mis Hydref, gan ymateb i'r ddau bwynt cyntaf. Rhoi'r awgrymiadau eraill ar waith gyda MS.**

**CAM GWEITHREDU: Pawb – codi unrhyw bryderon ynghylch rhannu cyfeiriadau e-byst gan y bydd apwyntiadau dyddiadur yn cael eu defnyddio ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol**

## Eitem 4 Adroddiad ar asesiad o Afonydd ACA yng Nghymru (i'w ryddhau Ion 2021)

Cyflwynodd Mark Squire drosolwg gyda rhai uchafbwyntiau allweddol o'r asesiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan CNC. Mae copi o'r cyflwyniad wedi cael ei rannu gyda Fforwm Rheoli Dŵr Cymru. Mae hwn hefyd wedi cael ei rannu gyda'r Awdurdodau Lleol. Dim ond yn y 9 afon ACA y mae'r asesiadau ar gyfer cyflwr ffosffad yn berthnasol, nid yn y safleoedd arfordirol. Mae copi o'r adroddiad ar gael yma Cyfoeth Naturiol Cymru / Asesiad Cydymffurfiaeth Afonydd ACA Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws

Mae gwaith yn digwydd o fewn CNC a gyda rhanddeiliaid allweddol yn arbennig ynghylch cyngor a chyfyngiadau cynllunio. Mae CNC yn parhau i weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a Natural England er mwyn deall y safbwynt yn Lloegr, yn arbennig mewn perthynas ag afonydd sydd â dalgylchoedd trawsffiniol. Mae'r gyfraith achosion mewn perthynas â nitrogen yr Iseldiroedd yn cael ei ystyried yn y modd y mae'n berthnasol i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn afonydd ACA ac yn benodol sut y caiff ei gymhwyso drwy gyfrwng trwyddedu a chynllunio mewn cyd-destun ôl-Brexit. Mae gan Awdurdodau Lleol a'r Cwmnïau Dŵr hefyd ran yn natblygiad yr ymdriniaeth.

Pwyntiau Trafod:

- Rhannwyd enghraifft o Orllewin Awstralia, a mantais samplo carthion a slyri rhydd i gefnogi ffermio cynaliadwy. Yn y modd yma gellid ystyried samplo slyri a phriddoedd yn fudd i'r cyhoedd yn hytrach na rhywbeth a allai arwain at gamau gweithredu rheoliadol.

- Mae CNC wedi ymgymryd ag 'archwiliadau dwfn' ar gynlluniau ffermio cynaliadwy. Gan fod dalgylchoedd yn amrywio mae angen i atebion gwrdd ag anghenion pob dalgylch. Mae hyn yn cynnwys asesu llwythi a dosrannu ffynonellau fesul sector. Soniwyd am gyllidebu maetholion. Does dim ateb sydyn.

- Trafodwyd yr angen am gyflwyno 'cyfran deg' a defnyddio modelu i sicrhau dosbarthu buddsoddiad Cwmnïau Dŵr yn effeithiol o fewn cyfnod presennol y rhaglen Cynllunio Rheoli Asedau (AMP) ar gyfer AMP7 a AMP8, gan edrych hefyd at y dyfodol. Mae safonau newydd wedi cael eu cynnwys ar gyfer rhaglenni amgylcheddol AMP7 a AMP8. Cadarnhaodd DCWW eu bod yn hapus iawn i drafod ailddyrannu'r arian yng Nghynllun Amgylcheddol Cenedlaethol AMP7 fel bo angen er mwyn gwneud y gorau o'r manteision amgylcheddol a fyddai'n codi. Gellid cytuno ar hyn wedi i'r modelu cyfran deg gael ei gwblhau yn 2021.

- Cyfeiriwyd at astudiaeth Prifysgol yn nalgylch Gwy. Mae hyn yn cynnwys ystyried lefelau maetholion etifeddol o fewn y pridd. Mae angen brys am gynlluniau rheoli maetholion a chamau gweithredu ar gyfer sectorau.

- Pwysigrwydd cydgysylltu rhwng sectorau ac astudiaethau sydd wedi eu gwneud. Angen hefyd am dreialu dulliau. Mae cyfleoedd gyda mentrau newydd. Mae cyfathrebu'n bwysig ar gyfer gweithio integredig.

- Gofynnwyd cwestiwn ynghylch gwahanu mewnbynnau llwythi amaethyddiaeth a'r rhai sydd yn dod o safleoedd trin pecynnau ar raddfa fach. Gall fod yn anodd cynnig % llwyr. Yr hyn sydd yn bwysig er mwyn sefydlu atebion fesul dalgylch yw'r gyfrannedd. Mae sensitifrwydd dalgylch yn amrywio o ystyried math y pridd a daeareg, yn ogystal â dulliau ffermio.

- Gwnaed sylwadau ynghylch gwahaniaethau trawsffiniol a'r angen i sectorau eraill allu deall y gwahaniaethau cyfreithiol rhwng CNC/Asiantaeth yr Amgylchedd/Natural England.

- Mae Byrddau Rheoli Maetholion yn cael eu creu ar hyn o bryd ar gyfer pob un o'r 5 afon ACA sydd yn ddiffygiol. Trafodwyd awgrymiadau y dylid sefydlu Bwrdd trosfwaol er mwyn sicrhau cydgysylltiad rhwng y byrddau a chafwyd cefnogaeth i'r awgrymiadau hyn.

- Mae llawer y gallwn ei ddysgu o'r hyn sydd wedi digwydd yn afon Gwy.

- Yn hanesyddol, mae ffermwyr wedi derbyn cyngor ADAS ynghylch defnyddio gwrtaith. Bydd angen defnyddio perswâd i newid dulliau/methodoleg os ydym am fabwysiadu dulliau newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwyddoniaeth yn llwyddiannus.

**CAM GWEITHREDU: AO i rannu papur y cyfeiriwyd ato ar gyfer Gwy**
**CAM GWEITHREDU: MS i gynnwys Parciau Cenedlaethol yn y Byrddau Rheoli Maetholion**

## Eitem 5 Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd

Cafwyd diweddariad ar y gwaith ar gyfer y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd gan Rhian Thomas (CNC). Mae ymgynghoriad wedi dechrau ar gyfer Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd Dyfrdwy a Gorllewin Cymru. Bydd Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren ar gael yn y man.

Pwyntiau Trafod:

- Gwnaed sylw ynghylch defnydd o'r hyb ymgyngoriadau pan fo sefydliadau'n cael nifer fawr o sylwadau gan aelodau. Yn yr achosion hyn, mae'n bwysig bod cofnod o'r holl sylwadau'n cael ei gyflwyno mewn un ymateb. Codwyd pryderon y gallai rhai manylion fynd ar goll drwy ddefnyddio'r Hyb Ymgyngoriadau. Bydd dogfennau drwy e-bost yn cael eu derbyn os mai dyma'r dull sydd yn cael ei ffafrio er mwyn anfon ymateb. Gofynnwyd i aelodau sicrhau eu bod wedi derbyn e-bost oddi wrth CNC i gadarnhau bod y neges wedi cyrraedd.

- Gofynnwyd cwestiwn ynghylch faint o gysylltiad sydd gan bobl gyda phroses Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Mae'r cynlluniau hyn yn cymell gwelliannau ac yn cynnig cyfle o ran ariannu.

**CAM GWEITHREDU: CJ i anfon cwestiynau ymgynghoriad at RLD a GDW i'w defnyddio gyda nifer o aelodau**

Cyflwynodd Mark Charlesworth fanylion pellach ynghylch gwaith gosod amcanion. Mae'r ddau gyflwyniad, Cynllun Rheoli Basnau Afonydd a Gosod Amcanion, wedi cael eu rhannu gyda Fforwm Rheoli Dŵr Cymru.

Pwyntiau Trafod:

- Byddai'n gymorth deall yn well sut mae'r ddeddfwriaeth yn cyd-fynd a chael trosolwg o hyn (e.e. sut mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd etc. yn gorwedd o fewn dull y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Cynllun Rheoli Basnau Afonydd.) Mae llawer o'r manylion hyn i'w cael o fewn dogfen Atodiad y Cynllun Rheoli Basnau Afonydd. Efallai y gellid defnyddio hwn fel sail ar gyfer cynhyrchu papur byr?
- Mae rheolau a methodoleg yn cael eu dangos yn yr Atodiad.
- Sut mae modd inni gyflwyno'r costau ar gyfer cynnal y llinell sylfaen? Mae hyn yn rhan o'r asesiad economaidd ehangach ac nid yw'n cael ei gynnwys yn y costau a gyflwynir yma. Mae hyn yn rhywbeth y mae CNC yn ei ystyried.
- Cafodd pwnc dŵr ymdrochi mewndirol hefyd ei godi dan yr eitem hon. Mae hyn yn dilyn y dynodiad dŵr mewndirol cyntaf yn Lloegr (a ddilynodd y dynodiad dŵr ymdrochi mewndirol cyntaf yng Nghymru – yn Llyn Padarn). Yng Nghymru mae trafodaeth ar hyn yn digwydd o safbwynt dŵr yn ogystal â than y gwaith Adferiad Gwyrdd. Gofynnodd aelodau sut y mae hyn yn gysylltiedig â'r Fforwm Mynediad a phwysigrwydd cydgysylltu rhwng sectorau.

**CAM GWEITHREDU: CJ i sicrhau bod RLD a KJ a GDW yn rhan o'r trafodaethau'n ymwneud â dŵr ymdrochi mewndirol.  Mae'n arbennig o bwysig i'r sectorau hyn fod yn rhan o hyn. Mae hefyd angen diweddaru arweinydd Fforwm Mynediad CNC i sicrhau cydgysylltu rhwng hamdden dŵr ac awyr agored.**

## Eitem 6 Diweddariad Adnoddau Water Resources West

Cafwyd diweddariad gan Richard Blackwell (Water Resources West) ar gynnydd ac amserlen lefel uchel ar gyfer Water Resources West. Mae cynllun adnoddau dŵr addasol hirdymor aml-sector yn cael ei gynhyrchu. Mae copi o'r cyflwyniad wedi cael ei rannu gyda'r aelodau.

Cafodd effaith Covid a'r defnydd o ddŵr yn y dyfodol ei godi mewn perthynas â'r gwaith hwn gan fod cynnydd wedi bod yn y defnydd o ddŵr gan ddefnyddwyr preswyl dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn o dan ystyriaeth. Codwyd hefyd ein dull o gyfleu defnydd dŵr i'r cyhoedd, er mwyn i'r ymadroddion a ddefnyddir fod yn berthnasol.  Er enghraifft, yn hytrach na chyfeirio at nifer fawr o litrau, dylid defnyddio baddon fel ffon fesur.

## Eitem 7 Ofwat

Cyflwynodd Bethan Evans gefndir a meysydd gwaith allweddol swyddfa Gymreig Ofwat. Mae'r prif amcanion yn cynnwys deddfwriaeth, gweithrediadau a dull rheoleiddio Ofwat. Yn bwysig i Gymru, mae'r hyn a ddysgwyd o Adolygiad Pris PR19 yn cael ei ystyried a bydd hyn yn llywio'r adolygiad pris nesaf yn 2024. Bydd dogfen gynllun lefel uchel yn cael ei chyhoeddi gan Ofwat ym Mis Mai ac mae didwylledd i wneud pethau'n wahanol yng Nghymru ar gyfer Adolygiad Pris PR24. Mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd gyda LlC, CNC, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed ac Ofwat.

Croesawyd y dull hwn gan yr aelodau - cael rhywun sy'n ymroddedig i weithio yng Nghymru gyda'r gobaith y bydd Ofwat yn medru gwneud ei hun yn fwy cydnaws â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Eitem 8 Unrhyw fater arall

Tynnwyd sylw at y materion canlynol:

- Amlygwyd adroddiad Partneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru, ac anogwyd aelodau i edrych ar yr elfennau mapio a fyddai'n ffynhonnell ddefnyddiol o dystiolaeth i gefnogi trwyddedau cynllunio ac amgylcheddol.

- Rheolau Parthau Perygl Nitradau (NVZ) yng Nghymru a goblygiadau ar gyfer ffermwyr tenant a'r angen i ystyried deddf tenantiaeth. Bydd Rheoliadau Newydd yn dod i rym ar y 1af o Ebrill. Mae is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru wedi bod yn gysylltiedig â'r mater yma. Roedd y mater yn cael ei gyflwyno i sylw Fforwm Rheoli Dŵr Cymru.

- Ymadael â'r UE a chyflwyno gwybodaeth yn y dyfodol. Cwestiwn i Fforwm Rheoli Dŵr Cymru a phwnc i ddychwelyd ato - beth fyddai'n ddefnyddiol a beth fyddem yn dymuno'i gyfleu o'n gwaith, megis Dŵr Ymdrochi a Chyfarwyddebau eraill/deddfwriaeth ddomestig. Un opsiwn yw defnyddio iaith Cenedlaethau'r Dyfodol yn hytrach na'n dull UE blaenorol o adrodd. Er gwybodaeth, mae Dr Nerys Llewelyn Jones wedi cael ei phenodi'n Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd, Cymru. Bydd yn dechrau ar ei gwaith ar 1 Mawrth 2021.

## Daeth y cyfarfod i ben am 13:00 a bydd y cyfarfod nesaf ar 20 Hydref 2021